------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 5 Mawrth 2018

Amser: 14.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Rhys Morgan**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddMADY@cynulliad.cymru

---

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(14.00)

## 2 Papur(au) i'w nodi

(14.00-14.05)

**2.1 Papur i'w nodi 1 - Gohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ynghylch y Bil Masnach a'r polisi masnach - 26 Chwefror 2018**

(14.00-14.05) (Tudalennau 1 - 4)

## 3 Cynnig i gytuno ar newidiadau i drefn y broses ystyried gwelliannau yng Nghyfnod 2 o Fil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru)

(14.05) (Tudalennau 5 - 6)

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitemau 5, 6, 9 a 10

(14.05)

## 5 Sesiwn hyfforddiant ar ddeddfwriaeth

(14.05-14.20) (Tudalennau 7 - 8)

## 6 Briff cyfreithiol ar Fil Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru)

(14.20-15.00)

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Elisabeth Jones, Prif Gynghorydd Cyfreithiol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## 7 Sesiwn graffu gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid

(15.00-16.00) (Tudalennau 9 - 26)

Mark Drakeford, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid

## Egwyl (16.00-16.05)

## 8 Perthynas y DU â'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol - sesiwn dystiolaeth gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid

(16.05 - 17.05) (Tudalennau 27 - 34)

Mark Drakeford, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid

## 9 Sesiwn graffu gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid- trafod y dystiolaeth

(17.05-17.35)

## 10 Perthynas y DU â'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol – trafod y dystiolaeth

(17.35-18.00) (Tudalennau 35 - 55)

**Ken Skates AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth**
**Cabinet Secretary for Economy and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

David Rees AC
Cadeirydd
Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

Mick Antoniw AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

26 Chwefror 2018

Annwyl David a Mick

**Sesiwn ar y cyd rhwng y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar 12 Chwefror: y Bil Masnach a pholisi masnach**

Diolch ichi am y cyfle i gyflwyno tystiolaeth i'r Pwyllgorau ar 12 Chwefror am bolisi masnach Llywodraeth Cymru ac am y Bil cyntaf o blith llawer y byddwn yn siŵr o'u hystyried gyda'n gilydd wrth inni ymadael â'r UE. Roedd yn bleser cael cynorthwyo'r Pwyllgor ac rwyf yn barod iawn i gynnig unrhyw gymorth pellach y credwch y gallaf ei roi.

Yn ystod y sesiwn, trafodwyd y rôl y mae'r Bil Masnach yn ei chwarae o ran galluogi cytundebau masnach ryngwladol, yr hyn y mae gweithredu yn ei olygu yng nghyd-destun y pwerau yng nghymalau 1 a 2, a chwestiynau ynglŷn â phwerau i agor y GIG i'r farchnad o dan gytundebau masnach ryngwladol. Cynigiais ddarparu nodyn gan gyfreithwyr ar eich cyfer ac fe'i hamgaeaf yma gan obeithio y bydd o gymorth i chi.

Yn gywir

Ken

**Ken Skates AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth
Cabinet Secretary for Economy and Transport

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.



We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**ATODIAD**
**Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol am y Bil Masnach: Sesiwn ar y cyd rhwng y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**
**12 Chwefror 2018**
**Nodyn gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth i ddilyn y sesiwn dystiolaeth**

Pwerau'r Bil Masnach ac ymrwymo i gytundebau masnach ryngwladol

1. Nid yw'r Bil Masnach yn rhoi pŵer i Lywodraeth y DU ymrwymo i'r Cytundeb ar Gaffael gan Lywodraethau (GPA)[1] neu i gytundebau masnach ryngwladol; mae ganddi'r pŵer i wneud hynny eisoes o dan yr Uchelfraint Frenhinol[2].

2. Mae'r Bil yn rhoi pwerau i weinidogion y gweinyddiaethau datganoledig a gweinidogion y DU roi'r GPA a chytundebau masnach ryngwladol ar waith. Yn fras, hanfod hynny yw ei fod yn rhoi pwerau i weinidogion newid cyfraith y DU ym mha fodd bynnag y bernir ei fod yn briodol-
   (a) er mwyn sicrhau nad oes unrhyw beth yng nghyfraith y DU a fydd yn atal nac yn llesteirio'r DU rhag cydymffurfio â chytundeb, nac i fwynhau'r hawliau a roddir gan gytundeb;
   (b) er mwyn galluogi'r DU i gydymffurfio â rhwymedigaethau neu i fwynhau hawliau o dan y cytundeb, neu er mwyn ei chynorthwyo i wneud hynny.

3. Ni cheir defnyddio'r pŵer i weithredu cytundebau masnach ond i weithredu cytundebau gyda gwladwriaethau a fydd â chytundebau masnach â'r UE eisoes ar y diwrnod y bydd y DU yn ymadael ag ef, neu ar y diwrnod y caiff rheoliadau gweithredu eu gwneud, pa un bynnag fydd gyntaf. Nid yw'n rhoi pwerau i weithredu cytundebau masnach gyda gwladwriaethau nad oes ganddynt gytundebau masnach gyda'r UE yn barod.

Ystyr *gweithredu* cytundebau

4. Mae cytundebau masnach ryngwladol yn creu hawliau a rhwymedigaethau sy'n orfodadwy gan y gwladwriaethau sy'n bartïon i'r contract, ac weithiau hefyd gan wladolion y gwladwriaethau sy'n bartïon i'r contract. Mae'r hawliau a'r rhwymedigaethau hyn yn rhan o'r gyfraith ryngwladol, ac yn cael eu gorfodi ar y lefel ryngwladol, e.e. drwy gyfrwng gweithdrefn datrys anghydfodau a gaiff ei chreu neu ei hawdurdodi o dan y cytundeb ei hun. Os na wneir mwy na hynny, mae'r hawliau a'r rhwymedigaethau hyn yn aros ar y lefel ryngwladol; nid ydynt yn dod yn rhan o'r gyfraith ddomestig ac felly, ni ellir eu gorfodi yn llysoedd y DU.

5. Mae'n bosibl y bydd angen creu rhai o'r hawliau a'r rhwymedigaethau rhyngwladol hyn yng nghyfraith y DU hefyd, fel y bo modd eu gorfodi yn llysoedd y DU, neu efallai y bydd angen newid cyfraith y DU mewn rhyw ffordd er mwyn sicrhau bod y DU yn cydymffurfio â rhwymedigaeth sy'n cael ei gosod gan gytundeb rhyngwladol, e.e. gallai cytundeb osod gofyniad ar y gwladwriaethau sy'n bartïon i gytundeb i sicrhau bod gwladolion y parti arall yn cael hawliau i herio penderfyniad o ryw fath neu'i gilydd a wneir gan y wladwriaeth yn system gyfreithiol ddomestig y wladwriaeth arall.

[1] Cytundeb ar Gaffael gan Lywodraethau, cytundeb nad yw'n orfodol, un o gytundebau'r WTO.
[2] Mae deunydd defnyddiol am yr Uchelfraint Frenhinol yn y Papur Briffio hwn, a gyhoeddwyd gan Dŷ'r Cyffredin yn 2017http://researchbriefings.files.parliament.uk/documents/SN03861/SN03861.pdf.

6. Bydd natur a chwmpas y newidiadau y bydd angen eu gwneud i gyfraith y DU yn amrywio, gan ddibynnu ar y mathau o hawliau a rhwymedigaethau rhyngwladol a fydd o dan sylw, a pha mor wahanol y byddant i'r hyn sy'n bodoli eisoes yng nghyfraith y DU, er enghraifft-
   (a) os yw hawl sydd i'w fwynhau o dan y cytundeb gan wladolion y parti arall i'r contract yn bodoli eisoes yng nghyfraith y DU ac yn gymwys i bawb, mae'n debyg na fydd angen unrhyw newidiadau;
   (b) os yw'r hawl yn bodoli eisoes yng nghyfraith y DU ar gyfer rhai unigolion neu endidau a'r unig beth sydd angen ei wneud yw estyn yr hawl honno i wladolion neu endidau yn y wladwriaeth arall sy'n barti i'r contract, gallai'r newid y bydd angen ei wneud i gyfraith y DU fod mor syml ag ychwanegu'r wladwriaeth honno sy'n barti i'r contract at y rhestr bresennol o wledydd yn neddfwriaeth y DU sy'n creu'r hawl sy'n bodoli eisoes yn y DU;
   (c) os yw'r hawl neu'r rhwymedigaeth yn gwbl newydd i gyfraith y DU neu os cafeat neu amod arni, yna, mewn theori o leiaf, gallai'r newid y byddai angen ei wneud i gyfraith y DU fod yn gymhleth; gallai, er enghraifft, gynnwys sefydlu cynllun statudol newydd a fyddai'n cynnwys meini prawf neu brofion i'w bodloni, rheolau gweithdrefnol i'w dilyn, cosbau am dorri'r rheolau, diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth arall, ac yn y blaen.

7. Mae'n debyg y byddai'n deg dweud y gallai unrhyw un o'r newidiadau hyn fod yn gyfystyr â *gweithredu*.

Cytundebau rhyngwladol a'r GIG

8. Oherwydd nad y Bil sy'n rhoi'r pŵer i Lywodraeth y DU ymrwymo i gytundeb masnach ryngwladol, nid y Bil a fyddai'n caniatáu i Lywodraeth y DU ymrwymo o dan gytundeb masnach i agor y GIG i farchnadoedd rhyngwladol, neu i ymrwymo i beidio â rhoi cymhorthdal i'r GIG neu i gyfyngu ar y gallu i'w reoleiddio.

9. Ond pe bai Llywodraeth y DU yn gwneud y pethau hynny, a phe na bai Tŷ'r Cyffredin yn gwrthwynebu (gan gymryd y byddid yn ymgynghori ag ef o dan Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010[3]), gellid defnyddio'r pwerau yn y Bil i newid cyfraith y DU ym mha ffordd bynnag y bernid ei bod yn briodol i sicrhau bod y DU yn cydymffurfio â'r rhwymedigaethau rhyngwladol hynny a fyddai'n ymwneud â'r GIG. Oherwydd nad oes unrhyw gyfyngiadau datganedig ar sut y caiff Gweinidogion y DU ddefnyddio pwerau cydredol o dan y Bil, ymddengys y gallai Gweinidogion y DU wneud y newidiadau angenrheidiol i gyfraith ddatganoledig, ni waeth a fyddai'n cael caniatâd y gweinyddiaethau datganoledig ai peidio. Cwestiwn mwy cymhleth nad yw o fewn cwmpas y nodyn hwn yw a fyddent yn gallu gwneud newidiadau na fyddent yn hanfodol er mwyn cydymffurfio â'r rhwymedigaethau hynny.
10. Mae dau bwynt y dylid eu nodi. Y cyntaf yw mai dim ond i ddiwygio *cyfraith yr UE a ddargedwir (*h.y. cyfraith a fydd yn dod yn rhan o gyfraith y DU drwy'r Bil Ymadael â'r UE*)* y ceir defnyddio'r pŵer yng nghymal 2 i roi cytundebau masnach ryngwladol ar waith. Ymddengys ei bod yn bur annhebygol bod deddfwriaeth sylfaenol a sefydlodd y GIG yn g*yfraith yr UE a ddargedwir* ac felly, pe bai angen gwneud unrhyw newidiadau i'r ddeddfwriaeth sefydlu honno er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaethau rhyngwladol a fyddai'n ymwneud â mynediad i farchnadoedd, mae'n debyg y bydd angen Deddf Seneddol (neu Ddeddf gan y Cynulliad).

[3] Deddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010, Rhan 2: *cadarnhau cytuniadau*.

11. Yr ail bwynt yw y gallai'r Pwyllgor fod yn awyddus i ofyn am ei gyngor cyfreithiol ei hun ynghylch i ba raddau y gallai Rheol Sefydlog 30A fod yn berthnasol i arfer pwerau cydredol y Bil Masnach, neu i ba raddau y gallai fod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad i ddadwneud newidiadau a gaiff eu gwneud gan Weinidogion y DU mewn meysydd datganoledig gan ddefnyddio pwerau cydredol y Bil Masnach.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 5

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon